

Newyddion Capel Y Waen

Rhif 21 PASG 2015

**Capel Annibynwyr Waengoleugoed
Waen,
Llanelwy LL17 0DY**

Eglwys fechan bywiog a gweithgar sydd yn gwrando ar lais Duw ac yn ceisio bod yn ganolbwynt daoini a gweithredu yn gariadus o fewn ein cymuned. I weld rhagor o newyddion / trefn oedfa ayb ewch i'n Gwefan - www.capelywaen.btck.co.uk / dilynwch ni ar Facebook "Capel y Waen". Cysylltwch a ni trwy'r wefan neu trwy'r post i'r cyfeiriad uchod

Rydym yn dymuno Pasg Bendithiol i Bawb !

Gwyl Dewi a'r Grawys

Fel ddewdodd rhywun o'r Capel "tydio fel dim amser pan oeddem yn dathlu'r Nadolig ac mae yn amser y Grawys ac edrych ymlaen i'r Pasg". Gall Sul Y Pasg ddisgyn o Mawrth 22 I Ebrill 25 sef y Sul cyntaf wedi l'r lleud llawn Pascal felly mae y Pasg yn weddol gynnar yn 2015. Roedd Dydd Gwyl Dewi yn syrthio ar ddydd Sul eleni a chawsom oedfa deulu hyfryd yn y Capel pan bu ini groesawu Rhian Price atom. Mae Rhian yn gyfarwydd i lawer gan iddi ddod atom yn wreiddiol fel cynllun artist preswyl yng Ngofal Dydd a diweddu'r cynllun trwy gynnal arddangosfa bendigedig o waith pawb. Braf hefyd oedd croesawu Geraint, Helen a Celyn ac Eleri i'r Oedfa Deulu am y tro cyntaf. Wedi cyflwyniad o stori Dewi Sant chawsom gyfle, yn blant ac yn rhai ychydig hyn i wneud gwaith celf o Dewi yn sefyll a'r tir wedi codi oddi tano. Atgoffwyd ni o eiriau olaf Dewi sef "Byddwch lawen, cedwch y ffydd a gnewch y pethau bychain".

Dwy flynedd yn ol, cyhoeddodd Judith O'Reilly lyfr "A year of doing good" sydd yn croniclo blwyddyn ble bu iddi addunedu gwneud o leiaf un

weithred da bob dydd. O tipyn i beth daeth eraill i wybod am y gweithredoedd yma a lledaenodd y dylanwadau trwy ei chymuned gwledig yng ngogledd Lloegr. Mae yn lyfr bywiog a hwyliog. Ond mae y ffaith i Judith O'Reilly chael ei magu fel Catholig a'i pherthynas gyda'r Eglwys gatholig erbyn hyn yn treiddio trwy y llyfr ynghyd a'r trafodaeth dwys o'r brofedigaeth enfawr y chafodd hi a'i gwr o'u mab bach hir-ddisgwyliedig yn marw ar ei enedigaeth a'u hiraeth parhaol amdano. Mae na lawer i feddw am yn y llyfr ac mae yn werth eu ddarllen. Mae cyfnod y grawys yn gyfnod ble rydym yn myrfyrio ar taith Iesu yn yr anialwch, y dyddiau yn arwain at y croeshoeliad a wedyn gorfoledd Sul y Pasg. Rhoi heibio pethau ydi nodwedd y grawys ond mae sawl enwad eleni wedi cefnogi yr ymgyrch <http://www.40acts.org.uk/40acts-together/> ac ein hanog i "gefnogi y grawys yn garedig ac i weithredu" a dilyn patrwm o myfrdodau a gwneud un peth o'r newydd bob dydd er lles eraill yn hytrach na rhoi heibio hen arferion. Mae gwneud y pethau bychain o fewn cyrraedd bob un ohonom a rydym i gyd yn gwybod fod gweithred y pethau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr. Nid oes rhaid disgwyl am ganllawiau fel sydd eleni ar gyfer y grawys... mae neges "40 gweithred" yn ddysgeidiaeth ini ac yn batrwm y gallwn i gyd ceisio byw iddo bob dydd o'r flwyddyn

"O Arglwydd y gwanwyn, anadla drwy'r tir a deffro ein daear o gwsg sydd mor hir, boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un" Vernon Jones



Ychydig o'n Hanes

Y Parti Nadolig

Prynhawn Sul Rhagfyr 21 bu l 14 o'n plantos bach gyda rhieni ymuno yn y Parti Nadolig a gynhalwyd yn y Capel. Ar ol l bawb gyrraedd chawsom gemau a posau dan ofal Yncl Arwyn ac ynghyd a gwneud ini feddwl am ystyr y Nadolig chawsom lawer o hwyl a chwerthin. Ar ol l bawb fwynhau te , clywyd cloch yn canu a cnoc fawr ar y drws a pwy oedd yno.....ond Sion Corn! Unwaith eto eleni roedd wedi cofio dod atom yn y Waen gyda anrheg fach l bob plentyn a chyflwynwyd anrheg l Sion Corn hefyd gan y plant. Llauer iawn o ddiolch l Yncl Arwyn, Yncl Richard ac Yncl Derrick am ein helpu unwaith eto eleni a hefyd l'r rhieni am eu holl gymorth yn tacluso wedi'r parti fel fod popeth yn barod ar gyfer yr Oedfaon.

Dathlu 200 Capel y Waen 1815-2015

Eleni rydym yn dathlu 200 mlynedd ers sefyldu yr Achos Annibynwyr yn y Waen ac yn diolch i Dduw am yr achos a'r hyn y mae wedi eu gyflawni a hefyd yn edrych ymlaen i'r dyfodol. Rydym eisiau cynnwys pawb sydd yn ymwneud a'r Capel mewn unrhyw fodd yn ein dathliadau ac yn agored i syniadau o sut allwn wneud hyn. Un syniad sydd wedi dod i law ydi ceisio croniclo hanes y Capel ond hefyd cael cyfraniadau 250-500 o eiriau gan unigolion / teuluoedd sydd wedi cael cyswllt gyda'r Capel yn y gorffennol ynghyd a'r presenol yn rhannu atgofion o beth mae Capel y Waen yn olygdu iddynt. Bydd angen y cyfraniadau cyn diwedd mis Mehefin.

Carolau ar Gyfer Pobl Pysur

Roedd y Capel yn llawn am 4 yp ar Noswyl Nadolig ar gyfer oedfa garolau flynyddol dan olau canwyll a braf gweld gymaint o blant wedi dod draw a sawl teulu tair cenhedlaeth . Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Rhodri Jones, Tony Palframan, Ffion Lloyd-Jameson ac Ann Burgoyne ac arweinwyd mewn gweddi gan Meinir Llwyd ac roedd David Mawdsley wrth yr organ. Diolch l bawb am gymeryd rhan ac Richard Owen a Derrick Jones am drefnu y parcio.

Diolch

Rydym yn ddiolchgar iawn l swyddogion , aelodau a ffrindiau Capel Bodffari am eu rhodd hael o £200 er budd Ofal dydd sef arian o'r cinio cynnal maent yn eu cael yn fisol fel Capel —hefyd ddebrynwyd siec arall am £200 gan Capel Bodffari er budd Hosbis St Cyndeyrn. Dim ond trwy roddion hael fel hyn yr ydym yn gallu cynnal Gofal Dydd a sicrhau dyfodol l gwasanaeth Ofal Dydd sydd yn golygu gymaint l'r rhai sydd yn dod yn wythnosol ac yn rhoi seibiant rheolaidd l'w gofawyr.

GWAITH ELUSEN CAPEL Y WAEN YNGHYD A CHAS- GLIADAU ARBENNIG

RYDYM YN CYNNAL FFAIR
FLYNYDDOL. YN 2014 DERBYN-
WYD £3,925.25 A RYDYM WEDI
HELPU HOSBIS ST CYNDEYRN,
CYMORTH CRSITNOGOL A GOFAL
DYDD. RYDYM YN RHOI CYMORTH
YMARFEROL TRWY BRYNNU OFFER
I RHAI SYDD YN Wael. COFIWCH
CEFNOGI EIN SIOP NEWYDD SYDD
YN GWERTHU NWYDDAU,
CHARDIAU AC ANRHEGION A CHEF-
NOGWCH Y GRONFA YMA
OUR OUTREACH WORK
IN 2014 WE RECEIVED £3,925.25
FROM THE FAIR AND SPECIAL COL-
LECTIONS. YOU CAN HELP SUP-
PORT OUR VITAL WORK AND ESPE-
CIALLY FUNDING OUR WEEKLY DAY
CARE BY DONATIONS, SUPPORTING
OUR SHOP AND DONATING GIFTS
AND OTHER ITEMS TO SELL.

Myfrdod y Mis

“Peidiwch
chwi ag ofni,”
meddai. “Gwn
mai ceisio
Iesu, a groe-
shoeliwyd, yr
ydych. Nid yw
ef yma, oher-
wydd y mae
wedi ei gyfodi,
fel y dywe-
dodd y
byddai;
(Mathew 28.5
–7).

Dymuniadau Da Wedi 35 mlynedd , mae Margaret Williams wedi rhoi'r gorau l wirfoddoli gyda chyfeillion Ysbyty Glan Clwyd. Ers agor yr ysbyty, mae wedi helpu gyda'r siop yn yr ysbyty yn fisol ar Nos Sadwrn a bu hefyd ar pwyllgor y Urdd y Cyfeillion am sawl blwyddyn.

Cofiw'n ar ein Rhestr Weddi am Mr Meirion Jones Rhewl yng Nghartref Plas Eleri a Mrs Menna Owen yng Nghartref Yr Hen Ddeondy . Gweddian drost Mr Gwynfor Lightbown Fachwen a drost Mrs Glenys Jones . Rydym wedi cofio ac yn cofio am bob un o'r bobl yma yn ein gweddian personol a fel chynyllleidf a Sul I Sul yng Nghapel Waengoleugoed.

Canwyll I Gofio Oherwydd ddigwyddiadau eraill ar 7 o Ragfyr, dyddiad gwreiddiol y gwasanaeth , penderfynwyd newid y dyddiad i 30 o Dachwedd - Sul Cyntaf Adfent. Braf nodi fod y Capel yn llawn ac ynghyd a nifer o rai lleol , croesawyd rhai o Lerpwl, Sir Fon a Phenllyn. Llauer iawn o ddiolch i Mrs Glenys Morris am ein harwain mewn darlleniadau ac i Mrs Iola Jones am y myfrdodau a'r gweddian , i Mr Gareth Lewis Jones am chwarae'r organ ; i Mrs Eirian Roberts a Mr John Tegla Williams am yr unawdau hyfryd ac i Mrs Leah Owen, Celyn Llwyd, Mared Williams, Leah Thomas, a Ruth Roberts (aelodau Grwp Enfys) a swynodd bob un yn y gynyllleidf. Diolch i Mrs Penny Mawdsley, Mrs Di George a Mrs Margaret Williams a addurnodd y Capel mor hyfryd ac i Richard Owen, Peter Jones a Gareth Roberts am helpu gyda'r parcio a sicrhau fod pawb yn cyrraedd a gadael yn ddiogel ar noson ddigon oer a niwlog. Paratowyd paned ar y diwedd a diolch i Mrs Llinos Roberts a Mrs Mair Williams am eu cymorth caredig yn sicrhau nid yn unig paned a chacennau i drost 100 o fobl ond croeso cynnes i bawb hefyd . Derbynwyd £441.25 mewn offrwm er budd Hosbis St Cyndeyrn.

Gofal Dydd —Mwynhaodd 25 ginio Nadolig bendigedig yn y Farmers Arms ar 18fed o Ragfyr a diolch i Annette a Roger am eu caredgrwyrd tuag atom. Diolch hefyd i'r person caredig a sicrhaodd anrheg gan Sion Corn i bawb a bu ini hefyd cael cacen a chanwyllau i ddathlu gyda Mrs Eurwen Pierce oedd yn dathlu penblwydd ar ddydd Gwyl San Steffan. Rydym wedi mwynhau chrefftau, cwis, ymarferiadau gyda Donna ac ymweliadau gan Arfon Wyn i'n harwain mewn can a Cefyn Burgess gyda'r gwaith crefft gwych. Ar Ionawr 29fed o fewn hanner awr syrthiodd trwch mawr o eira yn y Waen ac am y tro cyntaf ers cychwyn penderfynwyd cau Gofal Dydd yn gynnar—diolch i'r gwirfoddolwyr am eu gofal ac i Gareth a Dafydd am fynd gyda'r bws i sicrhau fod pawb yn cyrraedd adref yn ddiogel . Llongyfarchiadau i Mrs Ceinwen Jones ar enedigaeth wyres fach Cassie Elena a Mrs Elsa Evans ar enedigaeth Gor wyr Thomas David. Yn anffodus mae y gaeaf wedi dod a salwch i'n cyfeillion - bu Mrs Ceinwen Jones yn Ysbyty Glan Clwyd a Mrs Jessie Parry yn yr Inffymari a Mrs Eluned Lloyd yn sal adref. Treuliodd Mrs Glenys Jones cyfnod yn yr ysbyty drost y Nadolig ac yn anffodus mae yn ol yn yr ysbyty - rydym yn gweld ei cholli yn fawr iawn Cofiw'n am Mr Ted Morris , gwr Mrs Glenys Morris a fu yn Ysbyty Glan Clwyd yn gynnar yn y flwyddyn a hefyd Mr Robert Roberts gwr Mrs Llinos Roberts sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Arrowe Park. Rydym yn gobeithio a gweddio bydd pawb ohonynt yn cael gwellhad buan a llwyr. Llauer o ddiolch i Mrs Glenys Morris sydd wedi bod yn anerch am waith Gofal Dydd gyda changhenau Merched y Wawr - trwy hyn dderbynwyd rhoddion caredig o £250 gan Ferched y Wawr cangen Llanelwy a hefyd £20 gan cangen Merched y Wawr y Rhyl.

Grwp C3- Bu'r Grwp arbrofi gyd "sgrin printio" gyda Ruth Thomas— chafodd pawb hwyl yn paratoi eu lluniau a llauer o ddiolch i Ruth am ddod atom ac i Sian Fitzgerald a Jo McGregor am drefnu y sesiwn. Daeth Ffion Alun atom ym mis Mawrth a dangos sut i wneud breichledi hardd a phawb yn gwneud amryw o dlysau hardd i fynd adref. Mawr ddiolch i Ruth ac i Ffion—mae grwp C3 yn agored i unrhyw un sydd wedi neu yn cael triniaeth am gancr ynghyd a'u teuluoedd.

Y Parseli Nadolig. Paratowyd parseli i rhai sydd yn wael neu wedi cael profedigaeth neu mewn cartrefi gofal. Darparwyd drost 40 o hamperi a pharseli eleni - llauer o ddiolch i Ffion, Margaret a Meinir am ddosbarthu. Mae y derbynwyr mor ddiolchgar nid yn unig am y hamper, ond yr ymweliad sydd mor bwysig i rhai sydd yn cael bywyd yn unig ac yn anodd. Diolch i bawb a gyfranodd nwyddau i sichau ein bod yn gallu rhoi parseli a hamperi hyfryd i bawb unwaith eto eleni.

Waen Chapel is an open , welcoming Chapel and here for everyone . We offer support and help to all of any language or faith —please do let us know if you feel that the Chapel can help you in any way. We have a monthly English news letter on **our website** www.capelywaen.btck.co.uk .

Dyddiadau i'w Nodi – Dyma rhestr dyddiadau i'w nodi ac oedfaon gyda pregethwyr gwadd 2015

Mawrth 15 Parch William Davies Bala **2yp**

Mawrth 25 Darlith y Grawys—Darlith gan Miss Beti George BBC ar “ Dementia” - Cadeirydd y Noson Dafydd Iwan **7yh**

Mawrth 29 Parch John Pritchard Llanberis **4.30yp**

Ebrill 5ed Oedfa Deulu Sul Y Pasg a helfa wyau **10.30 yb**

Ebrill 26 Dr John Williams Lerpwl **10.30yb**

Mai 10fed—oedfa i'w gadarnhau

Mai 24 Parch Dr D Ben Rees Lerpwl **2yp**

Mehefin 14 Gymanfa Ganu yr Annibynwyr 2yp—Ileoliad i'w gadarnhau

Mehefin 21 Parch Tecwyn Ifan Llanddoged **2yp**

Mehefin 28 Oedfa Deulu'r Haf **10.30 yb**

Gorffennaf 19 Parch Iwan Llewelyn Jones Porthmadog **5yp**

Pob Dydd Iau—Gofal Dydd 10.30yb—3.30yp

Cofio Les Hughes Yn dawel yn ei gartref bu farw Les Hughes yn 72 oed. Symudodd yntau ac Ann I fyw yn Nhy Gwyn deg mlynedd yn ol. Roedd yn falch o'i deulu ac yn enwedig llwyddiant ei fab Mark Hughes fel Rheolwr Tim Pel Droed Stoke City. Roedd yntau ac Ann yn gwerthfawrogi a ddiolchgar eu bod ar rhestr weddi Capel y Waen yn ystod salwch Les a hefyd yn diolch am yr ymweliadau a chefnogaeth o'r Capel. Cynrychiolwyd y Capel yn ei angladd yn yr amlosgfa ym Mae Colwyn a chydymleimlwn gyda Ann a'r teulu yn eu hiraeth

Cofio Raymond Jones—Bu farw Raymond Jones yn Ysbyty Glan Clwyd yn 82 oed wedi iddo ddioddef o Dementia ers sawl blwyddyn. Chafodd ofal tyner adref gan ei wraig Joan tan 3 wythnos olaf ei fywyd pan fu rhaid iddo fynd i'r ysbyty. Roedd yn hoffi mynd am dro ar hyd y lonydd yn ymyl ei gartref gyda Joan a gwnaeth hyn hyd y mis olaf. Roedd yr angladd yn Eglwys y Cwm. Cydymdeimlwn gyda Joan, ei fab a'r wyrion a hefyd Betty Thompson ei chwaer yng nghyfraith

Cofio Corriswen Phillips - Daeth Miss Phillips gyda'i rhieni a'i brawd John I fyw yn y Waen 70 mlynedd yn ol. Gweithiodd am flynyddoedd yn siop dillad "y Spot" yn Rhyl. Wedi ymddeol dechreuodd mynychu arwerthiant Car Boot. Ymhnen amser cychwynodd gasglu nwyddau ar gyfer cynnal stondin. Gyda John roedd allan bob dydd, hyd yn oed mewn rhew ac eira, a weithiau yn gadael y ty cyn iddi wawrio i gael y safle gorau a thrwy cynnal y stondinau bu iddynt godi llawer o arian er budd eu hoff elusen Barnados. Chafodd fyw i'r un oedran mawr a'i mam o'i blaen sef 95 oed a bu farw yn dawel yng Nghartref Maes Elwy, Trefnant gyda'r angladd yn amlosgfa Bae Colwyn.

Cydymdeimlo Rydym yn cydymdeimlo yn gywir iawn gyda Meirion Jones, Meinir, Arwyn a Gronw a Rhodri, Julie ac Elin yn y brofedigaeth fawr o golli ei cefnder Aled Jones trwy ddamwain ac yntau yn dad ifanc i dri o blant bach. Rydym hefyd yn meddwl yn dyner am Mrs Glenys Jones, mam Aled a gweddill y teulu sydd yn gefnogol iawn i nifer o weithgareddau yn y Waen a bu ini gofio y teulu mewn gweddi yn ein hoedfaon.. Rydym yn parhau i gofio am y teulu i gyd yn ein gweddiau.

Cydymdeimlo. Cofiwch yn annwyl am Mrs Mona Davies a gollodd modryb a chwaer yng nghyfraith o fewn ychydig wythnosau. Cydymdeimlwn gyda gweddill y teulu a hefyd gyda Mr Gareth Davies yn y brofedigaeth trist o golli Eirian yn 64 oed wedi salwch anodd.



Plant Bach Capel y Waen Dydd Sul Rhagfyr 21 2014

